

## **Adroddiad Ôl Ymgynghori**

### **Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandaf – Gorchymyn Traffig Arbrofol**

**Rhif Project: CO19059**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 4 Gorffennaf 2019 a 27 Gorffennaf 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys o hyd yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd.

O'r tua 75 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 6 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 30 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 5 - Cefnogi'r cynnig
- 2 – Gwrthwynebu'r cynnig

Dengys y pryderon a'r sylwadau mewn ysgrifen *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### **Argymhelliad**

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Byddai'r GRhTDD mewn grym am 18 mis ar y mwyaf a byddai ond ar waith yn ystod y tymor fel rhan o dreial. Bydd y GRhTDD yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn na gyrru ar hyd Hendre Close rhwng **8:30am a 9:15am a rhwng 2:45pm a 3:45pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**. Diben hyn yw sicrhau diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i'r Eglwys yng Nghymru Llandaf ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

**Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

### **Mater - Caiff y Broblem gyda Pharcio ei hadleoli i strydoedd cyfagos**

*"Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn y traffig yn y ffyrdd o amgylch Hendre Close, sef Insole Gardens, Hendre Gardens, a Vaughan Avenue. Rydym yn pryderu y bydd y problemau presennol o barcio'n ddi-hid a gyrru'n beryglus yn cael eu symud i'r ffyrdd o amgylch Hendre Close. A ystyriwyd mesurau eraill y gellid eu rhoi ar waith hefyd er mwyn lliniaru effaith y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig."*

*"Nid wyf yn credu y bydd atal rhieni plant ysgol rhag cael mynediad i gerbydau i Hendre Close yn hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr ond yn syml bydd yn symud y broblem i strydoedd eraill cyfagos, lle mae tagfeydd eisoes yn fater sylweddol ar amseroedd gollwng a chasglu"*

Ar ôl rhoi'r cynllun ar waith bydd yr awdurdod lleol yn asesu ac yn monitro'r cynllun, bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyfathrebu â'r ysgol a bydd ymweliadau â safleoedd yn cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd gwaharddedig er mwyn asesu effaith y cynllun. Os canfyddir

materion diogelwch ffyrdd ychwanegol wrth fonitro'r cynllun hwn, caiff y materion hyn eu cyfeirio at y tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i ymchwilio i benderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol neu ddiwygiedig.

### **Mae'r isod yn sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:**

*“Fel rhiant sydd â dau blentyn yn yr ysgol rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r cynnig yn llawn. Rydym yn beicio gyda'n plant i'r ysgol, ac mae mor beryglus ar Hendre Close – yn enwedig pan fo'r plant yn beicio yn eu blaen. Ni sydd â'r hawl tramwy wrth ddod i fyny Hendre Close gan ein bod yn mynd i fyny allt, ac mae ceir yn dueddol o barcio ar yr ochr gyferbyn, ond eto mae ceir yn dod yn gyflym heb ystyried y plant ar eu beiciau. Mae cau Hendre Close i bron pob traffig yn syniad gwirioneddol dda ac rwy'n llwyr gefnogol.”*

*“Mae fy nheulu wedi byw yn y cyfeiriad hwn ers i'r tŷ gael ei adeiladu, cyn i'r ysgol gael ei hagar, ac rydym yn llwyr gefnogi'r cynnigion i gyflwyno parcio i breswylwyr yn unig, a gorfodaeth fwy llym o'r rheoliadau traffig.”*

### **Sylw - sut bydd y cynllun newydd yn cael ei orfodi?**

*“O ran gorfodi, oes unrhyw ffordd yn cael ei chynnig o fonitro cydymffurfiaeth â chylluniau o'r fath? (Ydy'r camerâu'n rhai sefydlog, neu'n rhai symudol fydd yn ymweld â'r ardal? Os yn rhan sefydlog, lle bydd y cit yn cael ei osod?”*

*“Fy mhwynt neu gwestiwn olaf yw sut byddwch chi'n rheoli pobl sy'n ymweld â thrigolion y stryd? Er enghraifft, bydd fy mam yn cyrraedd fy nhŷ i am ryw 3.15pm wedi iddi gasglu fy mhlant o ysgol arall.”*

Ni fydd trwyddedau ymwelwyr na thrwyddedau crefftwyr/gyrwywr dosbarthu yn cael eu cyflwyno a bydd rhaid gwneud trefniadau gwahanol.

Caiff unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fo'r amseroedd cyfyngedig yn dechrau ganiatâd i aros wedi'u parcio yn y parth yn ôl yr angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir mynediad i'r parth tra bo'r cyfyngiadau ar waith.

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â'r Gwaharddiad Gyrru hwn, gall fod yn destun Hysbysiad Tâl Cosb pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil/yr Awdurdod yn cyflwyno'r hysbysiad hwn i'r perchennog drwy ddefnyddio Car Camera'r Tîm Gorfodi Sifil.

Pe bai problem barhaus mewn lleoliad, byddai'r Cyngor yn ystyried cyflwyno camera gorfodi sefydlog i orfodi'r Gorchymyn Traffig.

### **Sylw – Cais am Orchmynion Rheoleiddio Traffig ychwanegol**

*“Yr unig gafeat y byddwn yn ei ychwanegu yw bod y sefyllfa'n debygol o fod yn anodd i ddefnyddwyr bregus (fel ni ar ein beiciau) o amgylch Vaughan Avenue/Hendre Gardens, yn enwedig tua'r troad siarp ar waelod Hendre Close. Gallaf ragweld anawsterau gyda cheir yn ceisio ein pasio'n beryglus ac efallai yn tynnu allan/troi ar y ffordd. Oes camau yn eu lle i fonitro'r sefyllfa hon er mwyn osgoi problem Hendre Close 'mond yn cael ei throsglwyddo i ran arall o'r heol?”*

Mae menter Strydoedd Ysgol yn dod yn fwyfwy cyffredin ledled y wlad, ond mae angen i ni sicrhau ei bod yn gweithio i Gaerdydd. At y diben hwn rydym yn cynnal treial 18 mis er mwyn

monitro'r sefyllfa'n ofalus, ac ar ddiwedd y treial byddwn yn ystyried yr effeithiau a nodwyd. Byddwn wedyn yn ystyried a fu i'r cynllun weithio, a oes gwersi i'w dysgu, ac addasu'r cynllun yn ôl yr angen neu ei ddileu'n gyfan gwbl.

### **Sylw – Pwy fydd yn cael eu heithrio?**

*“Gan fod awdurdodau'r ysgol yn caniatáu i'w cyfleusterau gael eu defnyddio gan bobl ychwanegol yn gynnar yn y bore, dylid gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn i Hendre Close o 7.30 A.M. a dylid gwahardd ymwelwyr achlysurol â'r ysgol, e.e. staff cinio, ar bob adeg – mae gan yr ysgol lawer o dir i ddarparu cyfleuster o'r fath a dylid cael mynediad drwy Cardiff Road gan osgoi Hendre Close yn gyfangwbl. Dylai'r un peth fod yn wir ar gyfer nwyddau sy'n cael eu dosbarthu i'r ysgol/ gwaith cynnal a chadw, gan fod cerbydau trwm aml yn berygl parhaus. Wrth i'r diwrnod ysgol ymddangos fel petai'n ehangu heibio i 5pm, dylai cyfyngiadau fod ar waith ar gyfer y cyfnod cyfan hwnnw,”*

Ni fydd trwyddedau ymwelwyr na thrwyddedau crefftwyr/gyrwywr dosbarthu yn cael eu cyflwyno a bydd rhaid gwneud trefniadau gwahanol.

Caiff unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fo'r amseroedd cyfyngedig yn dechrau ganiatâd i aros wedi'u parcio yn y parth yn ôl yr angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir mynediad i'r parth tra bo'r cyfyngiadau ar waith.


Y cerbydau fydd wedi eu heithrio fydd cerbydau Preswylwyr, Ymwelwyr Gofal/Iechyd neu ymwelwyr hanfodol â phreswylwyr (gyda rhifau cofrestru wedi eu darparu gan Breswylwyr). Bydd rhestr o'r cerbydau hyn yn cael ei chadw a'i chynnal gan yr awdurdod.

### **Sylw – Gorfodi cyfyngiadau presennol a materion yn ymwneud â rhwystro dreifiau tai**

*“Ymhellach i ohebiaeth flaenorol ac i gefnogi fy sylwadau ynghylch mynediad gan draffig, roedd fan wen fawr heb farciau, yn blocio fy nreif bore ddoe, am 45 munud o 8.20A.M.*

Mewn perthynas â cherbydau sy'n torri'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig presennol ac os bydd cerbydau yn parcio ar draws croesfan isel bydd Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn gallu ymdrin â throseddau o'r fath drwy Hysbysiad Tâl Cosb. Arfer y Cyngor yw mai dim ond pan dderbynnir cwyn benodol gan y meddiannydd mewn perthynas â cherbyd penodol y byddai gorfodi yn digwydd. Lle nodir digwyddiadau, gellir rhoi gwybod amdanynt i'r Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil sydd ar gael ar Caerdydd 20872088.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.